



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Pum Heol
Heol Hen
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 5EZ**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2018

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Ynglŷn â'r Ysgol Gynradd Pum Heol

Ysgol gynradd gymunedol a gynhelir gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin yw Ysgol Pum Heol. Lleolir yr ysgol yng nghanol y pentref a gwasanaetha'r pentref ei hun a'r ardal wledig gyfagos.

Mae 91 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn pedwar dosbarth cymysg, dau ar gyfer y cyfnod sylfaen a dau ar gyfer cyfnod allweddol 2.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 12% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol, sy'n 18%. Tua 19% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y cyfnod sylfaen ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn adnabod 24% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2012 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mai 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym>

Crynodeb

Mae'r staff yn creu ethos gofalgwr yn yr ysgol, lle mae pawb yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae cydberthynas adeiladol a chefnogol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion sy'n cyfrannu at y naws teuluol ac mae'r amgylchedd dysgu yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu gwaith ac i gyfrannu'n sylweddol at fywyd yr ysgol. Mae cyflwyniadau bwriadus yr athrawon, sy'n cynnwys defnydd medrus o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn ysgogi'r disgyblion i ganolbwyntio a dysgu'n effeithiol yn eu gwersi. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu ac mae llawer yn cydweithio'n effeithiol ac yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff, y llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni. Mae'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn llwyddiannus i wireddu blaenoriaethau'r ysgol. Mae ymdeimlad cryf o waith fîm yn bodoli ac mae pawb yn cydweithio'n effeithiol i godi safonau a sicrhau lles disgyblion.

Maes arolygu	Barn
Safonau	Da
Lles ac agweddau at ddysgu	Da
Addysgu a phrofiadau dysgu	Da
Gofal, cymorth ac arweiniad	Da
Arweinyddiaeth a rheolaeth	Da

Argymhellion

- R1 Codi safonau darllen ac ysgrifennu estynedig disgyblion yn y Gymraeg
- R2 Sicrhau bod adroddiadau ar safon yr addysgu a'r dysgu yn cyfeirio'n glir at y meysydd sydd angen eu datblygu, er mwyn galluogi arweinwyr a staff i fynd i'r afael â nhw
- R3 Darparu cyfleoedd cyson a phriodol i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Safonau: Da

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau cyfathrebu a mathemategol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae medrau llafar llawer o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gyflym. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau a chwestiynau yn y Gymraeg drwy ddefnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn siarad yn hyderus am eu gwaith ac yn mynegi barn yn synhwyrol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ar gyfraniadau oedolion a disgyblion eraill. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn siarad am eu gwaith yn aeddfed yn y ddwy iaith gan ddefnyddio geirfa gynyddol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer ohonynt yn ymuno'n frwdfrydig â thrafodaethau, er enghraifft wrth drafod arbrofion gwyddonol ar wahanol blanedau. Mae llawer yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac mae medrau meddwl y disgyblion yn datblygu yn gadarn.

Mae medrau darllen Cymraeg y disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r mwyafrif yn darllen yn hyderus ac yn adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Er hyn, ychydig o ddisgyblion mwy galluog sy'n darllen gyda mynegiant ac yn lleisio barnau aeddfed ynglŷn â storïau a chymeriadau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn gywir a hyderus yn Saesneg. Maent yn mynegi barn am lyfrau ac yn disgrifio'r prif gymeriadau a rhediad y digwyddiadau o fewn straeon yn ysturlon. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn effeithiol i gefnogi eu gwaith mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw medrau darllen Cymraeg lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn datblygu i'r un safon ag ydyw yn Saesneg.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu erbyn diwedd y cyfnod sylfaen. Maent yn amrywio'u brawddegau, yn atalnodi'n gywir, ac yn defnyddio ystod ddiddorol o ansoddeiriau a chymariaethau i gyfoethogi eu gwaith. Er enghraifft, maent wedi ysgrifennu darnau diddorol yn seiliedig ar weithdy 'Beti Bwt' yn dilyn eu hymwelïad â Sain Ffagan. Mae cyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion yn gyson dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n drefnus yn y ddwy iaith gan gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn effeithiol. Er enghraifft, yn eu gwaith yn seiliedig ar "Baboon on the moon", maent yn cyfleu eu teimladau fel pe byddent yn byw ar y lleuad ac effaith hyn ar eu defnydd o'u synhwyrâu. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae disgyblion yn cymhwyso eu medrau llythrennedd yn gadarn mewn meysydd amrywiol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r enghreifftiau o ysgrifennu estynedig Cymraeg sy'n seiliedig ar feysydd eraill y cwricwlwm ar draws yr ysgol. Ar adegau, mae nifer y taflenni gwaith yn y ddau gyfnod yn cyfyngu ar fedrau ysgrifennu estynedig lleiafrif o ddisgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymdrin ag ystod eang o weithgareddau rhif yn effeithiol. Wrth symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae gan lawer ddealltwriaeth briodol o gysyniadau mathemategol. Maent yn adnabod siapiau, deall pwrpas arian ac yn defnyddio'u gwybodaeth am amser i ddatrys problemau

ymarferol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio'u dealltwriaeth tra'n chwarae rôl yn y popty gan goginio, prisio bwyd a gwerthu bara a chacennau i'w cyfoedion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mathemateg rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Mae ganddynt dealltwriaeth gadarn o rif ac, erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae medrau mathemateg pen llawer ohonynt yn datblygu'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfrifo yn gywir wrth gasglu data am y gwahaniaeth mewn tymheredd rhwng Dinas Mecsico a Pum Heol, er enghraifft. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn defnyddio unedau safonol i fesur corff aelodau'r dosbarth ac yn dadansoddi'r data yn effeithiol. Mae'r disgyblion ar draws yr ysgol, gan gynnwys y rhai mwy abl, yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn gyson ar draws gwahanol elfennau o'r cwricwlwm wrth gyflawni tasgau heriol yn rheolaidd.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o feddalwedd a chyfarpar yn llwyddiannus mewn gwahanol feysydd dysgu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth reoli tegau electronig i ddilyn llwybr penodol. Mae'r rhan fwyaf yn cyfarwyddo ag achub eu gwaith yn hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r disgyblion yn defnyddio gwahanol raglenni'n hyderus i ysgrifennu gweddïau ac i greu tref ddychmygol yn electronig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio TGCh yn llwyddiannus i gyflwyno data ar ffurf graffiau gwahanol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio taenlenni yn bwrpasol i ddarganfod ffitrwydd y disgyblion. Maent yn hyderus wrth greu bas data i wahaniaethu gwahanol gymeriadau o gêm fasnachol. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn gadarn.

Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgaf, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Mae ymddygiad llawer o'r disgyblion yn dda yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr ac mae hyn yn cyfrannu at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sy'n bodoli. Mae'r disgyblion yn hyderus bod yr ysgol yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon sydd ganddynt.

Mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r effaith mae hyn yn ei gael ar eu corff. Maent yn manteisio'n gyson ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ystod gwersi, amser egwyl ac ar adegau y tu hwnt i'r diwrnod ysgol arferol. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhedeg 'miltir y dydd' ac ymarferion sy'n ymlacio'r corff. Mae bron pob un o'r disgyblion yn eu tro yn manteisio ar gyfleoedd i fynychu ymweliadau preswyl fel gweryll yr Urdd yn Llangrannog sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad eu medrau cymdeithasol a'u ffitrwydd.

Trwy gynllun llysgenhadon chwaraeon, mae'r disgyblion hŷn yn dangos gofal am y rhai iau yn llwyddiannus wrth chwarae gemau ar yr iard. Mae disgyblion yn arddangos eu bod yn derbyn cyfrifoldebau yn aeddfed trwy gymryd rhan ar amryw o bwyllgorau plant, sydd wedi arwain at ddatblygu ymwybyddiaeth gadarn ymhlith y disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cyfrifol a moesol.

Mae llawer o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau bywyd. Er enghraifft, mae llawer wedi perfformio'n gyhoeddus mewn gwasanaethau crefyddol yn y gymuned. Maent yn cydweithio gydag aelodau o'r gymuned i wella'r amgylchedd, fel yr ymgyrch i glirio baw cŵn oddi ar y palmant y tu allan i'r ysgol a chodi arian i brynu teganau iard newydd. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig ac yn ymateb yn dda i'r ethos gofalgwr a chynhwysol sy'n rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn awyddus i weithio, gan drafod yn effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion gan gynnig cymorth i'w gilydd pan fo angen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar mae disgyblion yn dechrau gweithio'n fwy annibynnol a gwneud penderfyniadau am sut a beth maent yn ei ddysgu.

Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae cydberthynas adeiladol a chefnogol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion. Mae hyn yn creu naws teuluol yn yr ysgol, sy'n cyfoethogi'r ymdeimlad o ddysgu parhaus ac sy'n codi hunanhyder disgyblion yn effeithiol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn paratoi, trefnu a strwythuro'u gwersi'n effeithiol. Mae'r athrawon yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o strategaethau'n fedrus i annog y disgyblion i ddysgu. Mae cyflwyniadau bwriadus yr athrawon yn ysgogi'r disgyblion yn eu gwersi. Trwy fod yn fodolau ieithyddol da, maent yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson ac yn gywir yn ystod y dydd. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd cywirdeb, rhuglder a thafodiaith gyfoethog yr ardal wrth iddynt sgwrsio. Mae cyfraniad y cynorthwywyr at ansawdd dysgu'r disgyblion yn werthfawr.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus iawn yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn darparu amgylchedd dysgu cynhyrchiol i'r disgyblion, ac yn cynllunio profiadau dysgu'n greadigol i fodloni eu hanghenion a'u diddordebau. Mae'r staff yn ysgogi disgyblion i ddarganfod drostynt eu hunain a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn cyntaf, trwy ddarparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt, sy'n seiliedig ar y themâu tymhorol.

Mae'r addysgu yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd disgyblion mewn llawer o ddisbarthiadau. Yn y dosbarthiadau hyn, mae'r ystod eang o brofiadau, ynghyd â disgwyliadau clir yr athrawon, yn galluogi llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i gynhyrchu gwaith o safon dda iawn, yn enwedig o ran eu medrau ysgrifennu Saesneg a rhifedd. Gan amlaf, mae'r athrawon yn defnyddio strategaethau effeithiol i gynnal diddordeb y disgyblion, yn enwedig trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Fodd bynnag, yn yr ychydig o ddisbarthiadau lle nad yw'r addysgu mor effeithiol, mae tueddiad i athrawon or arwain y dysgu, sy'n cyfyngu ar allu'r disgyblion i weithio'n annibynnol.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm. Maent yn datblygu'r cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus sy'n cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth disgyblion o'u hiaith, eu hardal, eu diwylliant a'u hetifeddiaeth yn llwyddiannus. Er enghraifft, trefnodd yr

athrawon bod cyn löwr o bwl glo cyfagos yn ymweld â'r ysgol i rannu ei brofiadau gyda'r disgyblion, a'u bod yn gweithio gyda'r clwb hanes lleol ac ymweliad â hen reilffordd gyfagos i ddysgu am hanes glofaol y pentref. I gyfoethogi'r cwricwlwm ymhellach, trefnir ymweliadau gwerthfawr â mannau diddorol fel Sain Ffagan, a dinas Caerdydd.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyffrous i ddatblygu medrau ysgrifennu, rhifedd a TGCh, sy'n arwain at gyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ddatblygu'r medrau hyn mewn cyd-destunau eang ar draws y cwricwlwm. Yn yr un modd, mae'r staff yn annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau creadigol ar draws yr holl feysydd dysgu. Er enghraifft, creodd disgyblion fideo i hybu glendid yn yr ysgol, a chyflwyniadau i gyfleu gwybodaeth am dai yn ystod cyfnod y Tuduriaid a oedd yn defnyddio'u medrau digidol, creadigol, llafar a chymdeithasol yn hynod effeithiol.

Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain. Mae athrawon yn rhoi adborth llafar effeithiol iddynt, ynghyd â chyfleoedd iddynt wella eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r arfer o gynnwys disgyblion yn yr arfer o asesu cynnydd eu hunain a chynnydd eu cyfoedion wedi gwreiddio hyd yma.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus. Mae'r staff yn creu ethos gofalgwr lle mae pawb yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi a'u trin yn gyfartal. Mae'r amgylchedd dysgu yn annog disgyblion i ymfalchïo yn eu gwaith ac i gyfrannu'n sylweddol at fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd penodol i ddisgyblion gymryd cyfrifoldebau. Er enghraifft, mae cyfleoedd i ddisgyblion fod yn aelodau o wahanol bwyllgorau a grwpiau fel y dewiniaid digidol, llysgenhadon chwaraeon, a'r pwyllgor ysgol. Mae hyn yn magu eu hyder i ddatblygu'n ddinasyddion cyfrifol a mentrus ac yn eu hannog i drefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer elusennau gwahanol, sy'n cynnwys yr ysbyty lleol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn a phwrpasol gyda'r rhieni ac aelodau'r gymuned, sy'n ategu gwerthoedd cadarn yr ysgol yn llwyddiannus. Mae hyn yn ehangu'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddisgyblion yn dda. Mae ymrwymiad cadarn y disgyblion i'r gymuned leol yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus wrth iddynt gyfrannu at ymgyrchoedd fel delio gyda pharcio y tu allan i'r ysgol. Mae'r ysgol yn casglu ac yn ystyried safbwyntiau rhieni yn briodol trwy gyfrwng holiaduron a chyfarfodydd buddiol. Er enghraifft, maent yn adolygu polisïau a chynlluniau datblygiadau'r dyfodol ar y cyd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn dda ac mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio mewn cyngherddau, cystadlaethau a gwasanaethau. Mae'r cyfleoedd hyn yn help i hyrwyddo hunan-barch a hyder ymhlith disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac annog y disgyblion i wneud ymarfer corff yn gyson. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon ar ôl ysgol yn rheolaidd, gan gynnwys yr ymweliadau sgïo tymhorol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol drwy weithgareddau cwricwlaidd, gwasanaethau a digwyddiadau creadigol. Mae disgyblion yn ennill profiadau gwerthfawr trwy gymryd rhan mewn cyweithiau 'Ysgolion Creadigol' a gweithio tuag at wob'r 'Ysgol Heddwch yng Nghymru'. Mae cyfnodau cyd-oddoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrir ar werthoedd fel ymddiried, rhannu a gwerthfawrogi. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i drefnu a chyflwyno gwasanaethau eu hunain, sy'n atgyfnerthu eu dealltwriaeth o agweddau moesol a chymdeithasol fel gwasanaeth y gannwyll, er enghraifft. Mae'r profiadau hyn yn datblygu medrau bywyd y disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl i olrhain cynnydd a chyflawniad disgyblion, gan gynnwys dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth a data. Gwneir defnydd rheolaidd o wybodaeth a gesglir i olrhain datblygiad grwpiau penodol o ddisgyblion, yn arbennig effeithiolrwydd strategaethau penodol i gryfhau eu medrau llythrennedd. Mae system olrhain fewnol effeithiol yn galluogi staff ac arweinwyr i werthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion a'u cynorthwyo i ddarparu gweithgareddau cymorth neu heriol priodol ar eu cyfer. O ganlyniad, mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr mwy abl a thalentog yn llwyddiannus ac yn eu herio i gyflawni ar y lefelau uwch.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl ac yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion dysgwyr yn gynnar ac yn ymyrryd yn effeithiol lle bo angen. Mae'r gweithdrefnau hyn o ansawdd da, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Cydweithia'r ysgol yn agos gyda'r holl rhanddeiliaid wrth adolygu cynnydd y disgybl. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymwybodol o'u targedau ac yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gweithdrefnau ar gyfer monitro ymddygiad a phresenoldeb yn gadarn ac mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda'r staff, y llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni. Mae'r staff yn ei chefnogi'n llwyddiannus i wireddu blaenoriaethau'r ysgol. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn bodoli ac mae pawb yn cydweithio'n effeithiol i godi safonau a sicrhau lles a medrau cymdeithasol disgyblion.

Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn trafod safonau, cynnydd a lles y disgyblion yn gyson, gan ganolbwyntio'n glir ar ymateb i'r blaenoriaethau gwella. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad addas sy'n hyrwyddo agweddau perthnasol ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff. Gwna'r athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau eu rheoli'n dda. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac mae ganddynt swydd ddisgrifiadau clir a chyfredol. Caiff staff gyfleoedd rheolaidd i gydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill o fewn y clwstwr o ysgolion lleol. Yn ogystal, mae'r trefniadau pontio gyda'r ysgol uwchradd yn effeithiol iawn ac yn sicrhau bod y disgyblion yn trosglwyddo'n hyderus i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, maent wedi rhoi blaenoriaeth i gyflwyno strategaethau effeithiol ar gyfer datblygu'r fframwaith cymhwysedd digidol a'r Siarter Iaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion, yn arbennig eu medrau TGCh, a'u medrau llafar Cymraeg.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth drylwyr am berfformiad yr ysgol ac maent yn chwarae rôl gynyddol mewn gweithdrefnau hunanarfarnu. Trwy gydweithio'n effeithiol ag arweinwyr yr ysgol, sgwrsio gyda disgyblion a chraffu ar eu llyfrau gwaith, mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r agweddau i'w datblygu. Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol i wneud penderfyniadau ac wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn llwyddo i gefnogi a herio'r ysgol yn effeithiol ynghylch ei pherfformiad. Mae hyn, er enghraifft, wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau gwyddoniaeth ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn dilyn amserlen fonitro drefnus, ac yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n eu helpu i arfarnu ansawdd gwaith yr ysgol yn lled effeithiol. Ar y cyfan, mae adroddiadau arweinwyr ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn nodi'r cryfderau a'r agweddau i'w datblygu ymhellach. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon miniog a phenodol i alluogi'r arweinwyr i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yn ddigon effeithiol.

Cofnodir deilliannau'r gweithdrefnau monitro yn briodol yn yr adroddiad hunanarfarnu cyfredol. Mae hon yn ddogfen gynhwysfawr ac yn cynnig darlun gonest o'r ysgol. Mae cyswllt priodol rhwng deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n berthnasol ar wella safonau ac yn nodi cyfrifoldebau staff yn glir. Mae wedi'i gostio'n briodol ac mae'n cynnwys amserlenni synhwyrol a meini prawf addas i fesur eu heffeithiolrwydd. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu'n effeithiol wrth roi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau darllen a TGCh disgyblion. Maent hefyd yn datblygu ymhellach ardal allanol y cyfnod sylfaen i wella dysgu annibynnol disgyblion. Mae adolygiad trylwyr o'r cynnydd mewn perthynas â bwriadau'r cynllun blaenorol yn enghraifft dda o sut mae'r ysgol wedi codi safonau disgyblion mewn gwyddoniaeth.

Mae arweinwyr yn dyrannu'r gyllideb yn briodol i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r ysgol, er enghraifft i brynu adnoddau TGCh ychwanegol a datblygu'r ardal allanol. Gwneir defnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion sy'n gymwys i dderbyn pryddau ysgol am ddim. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro'r defnydd o'r gyllideb yn ofalus ac yn rheolaidd i sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio'r cyllid yn effeithiol i godi safonau a gwella'r ddarpariaeth.

Er gwaethaf cyflwr yr adeilad, caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn cael eu defnyddio'n greadigol iawn. Mae amrediad da iawn o adnoddau ar gael yn yr ysgol ac maent yn cael eu defnyddio'n hynod effeithiol i hyrwyddo profiadau dysgu'r disgyblion.

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn
(www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwelliant	Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2018